

IS-DDEDDFAU

COLEG GŴYR ABERTAWE

Gwnaed yr Is-ddeddfau hyn yn unol â Chymal 20 o'r Erthyglau Llywodraethu yn Atodlen 2 i Reoliadau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gŵyr Abertawe (Llywodraethu) 2010 a bydd y darpariaethau Dehongli a nodir yng Nghymal 1 o'r Offeryn Llywodraethu yn berthnasol i'r Is-ddeddfau hyn.

1. **Presenoldeb Aelodau a Swyddogion yng Nghyfarfodydd y Gorfforaeth a'r Pwyllgorau**
 - 1.1 Os na all aelodau fynychu cyfarfodydd dylent roi gwybod i'r Clerc cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl. Bydd hawl gan y Clerc i ofyn am resymau dros beidio â mynychu ac ni ddylid oedi na gwrthod rhoi rhesymau yn afresymol.
 - 1.2 Y Clerc fydd yn gyfrifol am gynnal Cofrestr Presenoldeb.
 - 1.3 Disgwylir i aelodau fynychu dim llai na 60% o holl gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau a gynhelir o fewn unrhyw flwyddyn academaidd. Bydd y Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu yn adolygu lefelau presenoldeb yn rheolaidd.
2. **Presenoldeb Staff yng Nghyfarfodydd y Gorfforaeth a'i Phwyllgorau**
 - 2.1 Mae'n bosibl y bydd gofyn i staff y Coleg fynychu holl gyfarfodydd y Gorfforaeth a/neu ei Phwyllgorau neu ran ohonynt o bryd i'w gilydd.
 - 2.2 Dylai cofnodion y cyfarfodydd gynnwys cyfeiriad at y staff sydd 'Yn Bresennol yn Unig'.
3. **Penodi Cadeirydd (ac Is-gadeirydd)**
 - 3.1 Mae'r darpariaethau hyn yn atodol i Gymal 5 (a Chymal 13 os yw'n briodol) o'r Offeryn Llywodraethu a byddant yn berthnasol pan na fydd Cadeirydd nag Is-gadeirydd a etholwyd yn briodol ar gael i gadeirio un o gyfarfodydd y Gorfforaeth lle mae Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd newydd i'w penodi.
 - 3.2 Rhaid i'r Gorfforaeth benodi Cadeirydd dros dro o'i Haelodau i oruchwylio'r broses o ethol Cadeirydd (ac Is-gadeirydd os bydd angen) y Gorfforaeth. Ni ddylai'r Aelod hwnnw fod yn ymgeisydd ar gyfer swydd y Cadeirydd na'r Is-gadeirydd a bydd yr Aelodau sy'n ymgeiswyr yn gadael yr adeilad.
 - 3.3 Os mai dim ond un o'r Aelodau sy'n weddill sy'n fodlon cael ei benodi'n Gadeirydd Dros Dro, bydd ef/hi'n cael ei benodi/phenodi. Os bydd mwy nag un aelod sy'n weddill am fod yn Gadeirydd Dros Dro, caiff y mater ei benderfynu gan fwyafrif pleidleisiau'r Aelodau sy'n weddill. Os bydd y pleidleisiau'n gyfartal, bydd yr aelodau sy'n weddill yn trafod y mater

ymhellach cyn cynnal ail bleidlais. Os bydd y pleidleisiau'n gyfartal eto, bydd y Cadeirydd Dros Dro yn cael ei ddewis trwy daflu darn arian neu fwrw coelbren a bydd y Clerc yn goruchwyllo'r broses hon.

- 3.4 Bydd y Cadeirydd Dros Dro yn cadeirio cyfarfodydd nes y bydd y Cadeirydd newydd wedi'i ethol.
- 3.5 Fel rheol ni fydd Bwrdd y Gorfforaeth yn derbyn enwebiadau yn y cyfarfod i ethol Cadeirydd neu Is-gadeirydd oni bai y cymeradwyir hyn gan 75% o'r Aelodau. Dylid anfon enwebiadau at y Clerc cyn pen cyfnod o 14 diwrnod clir cyn cyfarfod y Gorfforaeth lle bydd yr etholiad yn cael ei gynnal. Dylai'r Clerc roi enwebiadau i'r Aelodau o leiaf saith diwrnod cyn cyfarfod y Gorfforaeth lle bydd unrhyw etholiad yn cael ei gynnal.
- 3.6 Dylid gwneud enwebiadau yn unol â'r ffurflen a nodwyd yn Atodlen 1 i'r Is-ddeddfau hyn.
- 3.7 Dylai ymgeiswyr gael y cyfle i annerch y cyfarfod ond am ddim mwy na phum munud.
- 3.8 Dylid cynnal etholiad y Cadeirydd yn unol â Chymalau 5 a 13 o'r Offeryn Llywodraethu. Dylai ymgeiswyr am swydd y Cadeirydd fod wedi gadael yr ystafell yn gyntaf er mwyn i'r pleidleisio ddigwydd drwy bleidlais ddirgel os bydd 75% o'r Aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio yn penderfynu y dylid cynnal yr etholiad fel hyn. Y Clerc fydd yn gyfrifol am oruchwyllo'r bleidlais ddirgel.
- 3.9 Ar ôl i'r pleidleisio ddigwydd, dylai'r Clerc adael yr ystafell i ddweud wrth yr ymgeiswyr am ganlyniad y bleidlais ac yna dylai'r holl ymgeiswyr ddychwelyd i'r cyfarfod.
- 3.10 Yna dylid dilyn gweithdrefn debyg o ran ethol yr Is-gadeirydd ond bydd y Cadeirydd a etholwyd at ddibenion goruchwyllo'r etholiad yn ildio'r swydd honno er mwyn y Cadeirydd newydd-etholedig os yw'n bresennol.
- 3.11 At ddibenion Is-ddeddf 3, y cworwm ar gyfer cyfarfod fydd yr Aelodau hynny sy'n weddill yn y cyfarfod pan fydd naill ai'r ymgeisydd am swydd Cadeirydd neu Is-gadeirydd wedi tynnu yn ôl er mwyn i bleidleisio ddigwydd.

4. Cyfarfodydd y Gorfforaeth a'i Phwyllgorau

- 4.1 Mae'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd a etholwyd yn unol â Chymal 5 o'r Offeryn Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod pob cyfarfod y Gorfforaeth a'i phwyllgorau yn cael ei gynnal yn gywir ac yn effeithlon.
- 4.2 Bydd y Cadeirydd (neu yn ei absenoldeb, yr Is-gadeirydd) sy'n gweithredu mewn ymgynghoriaeth â'r Clerc a'r Pennaeth yn cymeradwyo'r agenda ar gyfer pob cyfarfod. Bydd yr agenda'n cynnwys yr eitemau a nodwyd yn Is-

ddeddf 4.7 isod ynghyd ag unrhyw eitem arall sydd ei hangen ar Aelod sy'n gweithredu'n rhesymol.

- 4.3 Yn amodol ar Is-ddeddf 4.1 mae'r Clerc yn gyfrifol am goladu (a pharatoi os yw'n briodol) a chyflwyno'r papurau sydd eu hangen ar gyfer cyfarfodydd y Gorfforaeth a'r Pwyllgorau.
- 4.4 Bydd agenda pob cyfarfod y Gorfforaeth a phob cyfarfod Pwyllgor yn cael ei hanfon at Aelodau o leiaf saith diwrnod clir cyn unrhyw gyfarfod (ac eithrio os yw'r cyfarfod hwnnw yn gyfarfod arbennig lle caiff papurau eu cyflwyno cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol). Heblaw am amgylchiadau eithriadol (neu yn unol â'r Is-ddeddfau hyn) ni ddylid cyflwyno papurau llai na saith diwrnod clir cyn unrhyw gyfarfod lle mae angen y papurau hynny.
- 4.5 Fel rheol bydd y Clerc yn amserlennu cyfarfodydd y Gorfforaeth a'i Phwyllgorau gan ymgynghori â Chadeirydd y Gorfforaeth a Chadeiryddion y pwyllgorau amrywiol yn nhymor yr haf cyn dechrau pob blwyddyn academiaidd ond gellir eu newid mewn argyfwng. Cynhelir cyfarfodydd arbennig yn ôl yr angen.
- 4.6 Bydd trefn busnes pob cyfarfod y Gorfforaeth yn dilyn yr agenda gyhoeddedig oni bai bod mwyafrif yr Aelodau sy'n bresennol yn penderfynu fel arall.
- 4.7 Dylid cynnwys yr eitemau busnes canlynol fel gofyniad safonol ym mhob agenda cyfarfodydd y Gorfforaeth yn unig (ac eithrio cyfarfodydd cyhoeddus):
 - Ymddiheuriadau Absenoldeb
 - Datganiadau o Ddiddordeb
 - Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol i'w cymeradwyo neu, os bydd mwyafrif yr Aelodau sy'n bresennol yn cytuno eu bod yn gywir, cânt eu llofnodi gan y Cadeirydd fel cofnod cywir. Nid oes angen rhoi cofnodion y cyfarfodydd blaenorol ar agenda unrhyw gyfarfod arbennig
 - Cofnodion cyfarfodydd is-bwyllgorau
 - Adroddiad y Pennaeth
 - Adroddiad Cyllid.
- 4.8 Yng nghyfarfod olaf y Gorfforaeth ym mhob blwyddyn academiaidd dylid sefydlu'r pwyllgorau gofynnol gan barchu'r Offeryn Llywodraethu a nifer a hunaniaeth yr aelodau sydd eu hangen i wasanaethu ym mhob un o'r pwyllgorau.
- 4.9 Bydd aelod a benodir i unrhyw bwyllgor yn parhau i wasanaethu ar y pwyllgor hwnnw nes ei fod yn ymddeol o'r Pwyllgor neu nes ei fod yn rhoi'r gorau i fod yn Aelod o'r Gorfforaeth neu os yw'r Gorfforaeth yn penderfynu fel arall.
- 4.10 Gall y Gorfforaeth sefydlu pwyllgorau pellach ar unrhyw adeg at unrhyw ddiben i sicrhau bod y Gorfforaeth yn gweithredu'n gywir ac yn gyfreithlon.

- 4.11 Gall y Gorfforaeth benodi unigolion i bwyllgorau nad ydynt yn aelodau o'r Gorfforaeth ond trwy wneud hynny bydd yn cofnodi diben a chyfnod y penodiad hwnnw.
- 4.12 Bydd pob pwyllgor yn penodi ei Gadeirydd ei hun a'i Is-gadeirydd ei hun gan ddilyn gweithdrefnau a gytunwyd gan y pwyllgor hwnnw.
- 4.13 Fel rheol bydd y Clerc yn mynychu pob cyfarfod y Gorfforaeth ac os nad yw'n gallu mynychu bydd clerc dros dro a benodwyd yn unol â Chymal 6 o'r Offeryn Llywodraethu yn mynd yn ei le/lle.
- 4.14 Y cworwm ar gyfer pob cyfarfod fydd o leiaf 40% o gyfanswm nifer yr Aelodau ar y pwyllgor penodol.
- 4.15 Bydd y Pwyllgorau'n gweithredu yn unol â'r Offeryn a'r Erthyglau Llywodraethu.

5. Cod Ymddygiad

- 5.1 Bydd y Gorfforaeth yn rhoi Cod Ymddygiad ar waith ar gyfer ei Haelodau a bydd hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i newid gan y Gorfforaeth yn ôl yr angen. O ystyried y newidiadau i'r Cod Ymddygiad bydd y Gorfforaeth yn rhoi sylw i unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu.

6. Yswiriant Atebolrwydd ac Indemniad i Aelodau ac Uwch Staff y Gorfforaeth

Bydd y Gorfforaeth yn cynnal polisi yswiriant mewn swm i'w gytuno gan y Gorfforaeth o bryd i'w gilydd ar gyfer ei Haelodau o ran hawliadau a gofynion gan gynnwys unrhyw gostau a threuliau wrth amddiffyn hawliadau a gofynion o'r fath.

Adolygir y polisi'n flynyddol.

7. Cyfnod Mewn Swydd

- 7.1 Bydd Bwrdd y Gorfforaeth yn penderfynu'r cyfnod mewn swydd ar gyfer pob Aelod ond ni ddylai unrhyw gyfnod fod yn fwy na phedair blynedd oni bai bod 75% o'r aelodau sy'n bresennol ac sy'n pleidleisio yn cymeradwyo fel arall. Pedair blynedd fydd y cyfnod mewn swydd ar gyfer y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd oni bai bod Bwrdd y Gorfforaeth yn penderfynu fel arall.
- 7.2 Bydd rhywun sy'n Aelod oherwydd ei fod yn Aelod o staff y Gorfforaeth (gan gynnwys y Pennaeth) yn rhoi'r gorau i'w swydd pan fydd yn peidio â bod yn gyflogai.
- 7.3 Bydd rhywun sy'n Aelod oherwydd ei fod yn fyfyrwr yn y Gorfforaeth yn rhoi'r gorau i'w swydd ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd pan fydd y myfyrwr yn peidio â bod yn fyfyrwr yn y Gorfforaeth.

7.4 Gall Aelod wasanaethu ar Fwrdd y Gorfforaeth am uchafswm o dri thymor.

8. **Proses Enwebu ac Ethol ar gyfer Myfyrwyr y Gorfforaeth**

Bydd y Gorfforaeth yn penodi un myfyriwr o bob campws i fod yn aelod. Mae'r broses ar gyfer enwebu ac ethol myfyrwyr i'w gweld yn Atodiad 1.

9. **Proses Enwebu ac Ethol ar gyfer Aelodau o Staff y Gorfforaeth**

Yn unol â'r Offeryn Llywodraethu bydd y Gorfforaeth yn penodi un aelod o staff a gyflogir fel aelod o'r staff addysgu fydd yn cael ei ethol a'i enwebu gan y staff addysgu. Bydd hefyd yn penodi o leiaf un aelod o staff fydd yn cael ei ethol a'i enwebu gan aelodau eraill o staff y Coleg. Mae'r broses ar gyfer enwebu ac ethol i'w gweld yn Atodiad 2.

10. **Ceisiadau i fynychu ac annerch cyfarfodydd y Gorfforaeth a'i Phwyllgorau**

Os bydd rhywun nad yw'n Aelod o'r Gorfforaeth yn gofyn am gyfle i fynychu ac annerch cyfarfod y Gorfforaeth neu unrhyw un o'i phwyllgorau, rhaid i gais o'r fath gael ei wneud trwy ysgrifennu at y Clerc gan nodi mewn termau clir y rheswm am y cais ac amcangyfrif yr amser y dylid ei neilltuo ar gyfer y mater penodol. Bydd y Clerc yn tynnu sylw'r Cadeirydd at y mater yn syth. Ar ôl ymgynghori ag aelodau eraill o'r Gorfforaeth fel y tybia sy'n briodol bydd y Cadeirydd yn ymateb o fewn 15 diwrnod clir drwy ysgrifennu at yr unigolyn gan nodi'r rhesymau dros dderbyn neu wrthod y cais ac unrhyw faterion perthnasol eraill. Os bydd y Cadeirydd yn gwrthod y cais bydd gan yr unigolyn hawl i apelio a bydd yr apêl yn cael ei chyfeirio at Fwrdd y Gorfforaeth yn ei gyfarfod nesaf.

11. **Adolygu Is-ddeddfau**

Bydd is-ddeddfau'n cael eu hadolygu yn ôl yr angen gan y Gorfforaeth ond o leiaf unwaith bob dwy flynedd yng nghyfarfod y Gorfforaeth a gynhelir yn syth cyn diwedd tymor y Nadolig mewn unrhyw flwyddyn academiaidd.

(Cymeradwywyd 27 Mawrth 2014)

Ethol Myfyrrwyr-Lywodraethwyr – Y Broses ac Amserlen 2014

- Bydd y ddwy swydd 'Myfyriwr-Lywodraethwr' yn cael eu hyrwyddo o 28 Mawrth 2014 ar fwrdd gwaith y myfyrrwyr a'u hanfon ar e-bost i gyngor y myfyrrwyr a'u hyrwyddo yng nghyfarfodydd Cyngor y Myfyrrwyr ar 2 a 3 Ebrill 2014.
- Mae rôl y Myfyriwr-Lywodraethwr yn agored i **bob** myfyriwr, amser llawn neu ran-amser, ar draws pob maes astudio a phob campws.
- Bydd Bwrdd y Gorfforaeth yn penodi un Myfyriwr-Lywodraethwr ar gyfer pob un o'r ddau brif gampws: Gorseinon a Thycoch.
- Gallwch gasglu ffurflenni cais o'r Dderbynfa (ym mhob safle), neu gallwch ofyn am un drwy e-bostio Clerc y Gorfforaeth. Rhaid dychwelyd copi caled i Swyddfa'r Clerc yn Nhycoc'h erbyn 25 Ebrill 2014.
- Mae'r Clerc ar gael i ateb unrhyw ymholiadau a gallwch drafod ceisiadau ag unigolion ar gais.
- Bydd yr etholiad yn rhedeg rhwng 28 Ebrill a 9 Mai a gall myfyrrwyr bleidleisio ar y bwrdd gwaith gan ddefnyddio eu rhif adnabod myfyriwr.
- Bydd yr ymgeisydd gyda'r nifer fwyaf o bleidleisiau ar gyfer pob campws yn cael ei gynnig i Fwrdd y Gorfforaeth ar gyfer ei benodi ac os bydd yn cael ei gymeradwyo bydd yn gwasanaethu fel Myfyriwr-Lywodraethwr am gyfnod o flwyddyn yn y swydd.
- Os na fydd unrhyw enwebeion o unrhyw un o'r prif gampysau bydd y dyddiad cau yn cael ei ymestyn am wythnos ar gyfer yr enwebeion.
- Bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud ddydd Llun 12 Mai a bydd y rhai a etholir yn cael gwahoddiad i ddod i gyfarfod y Bwrdd fel gwylwyr ar 26 Mehefin.

**Gweithdrefn ar gyfer Ethol Aelodau o Staff Bwrdd Corfforaeth
Coleg Gŵyr Abertawe**

1. Pan fydd un neu ddau o aelodau staff Bwrdd y Gorfforaeth yn ymddeol, yn ymddiswyddo neu mae'r cyfnod mewn swydd yn dod i ben bydd Clerc y Gorfforaeth yn gyfrifol am gynnal a gweinyddu etholiad a bydd yn gweithredu fel y swyddog canlyniadau.
2. Mae'r Bwrdd wedi penderfynu y bydd dau aelod – yn unol â'r Offeryn Llywodraethu rhaid ethol un o'r staff academiaidd ac un o'r staff cymorth (gan gynnwys staff rheoli). Fel rheol bydd pob aelod o staff yn gwasanaethu am gyfnod o bedair blynedd yn y swydd.
3. Bydd y Clerc yn hysbysu adran berthnasol yr aelod o staff (addysgu neu staff cymorth) am y swydd wag a bod angen enwebiadau cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r aelod o staff presennol ymddiswyddo/ymddeol. Bydd hyn ar ffurf hysbysiad ar fewnwyd y staff, e-bost at yr holl staff yn y categori perthnasol, a hysbysiadau ar hysbysfyddau staff.

Os oes gan yr aelod o staff ddau contract mae'n gallu cael ei benodi yn unig ar gyfer y categori lle mae'r nifer mwyaf o oriau ar y contract. Caniateir dim ond un bleidlais ar gyfer y categori hwnnw hefyd.

4. Bydd y Clerc yn rhoi dyddiad cau clir ar gyfer dychwelyd ffurflenni enwebu. Bydd y ffurflenni enwebu i'w cael ar fewnwyd y staff neu'n uniongyrchol gan y Clerc. Dylai'r ffurflen enwebu gael ei llenwi a'i llofnodi gan yr enwebai ei hun a dau eiliwr y mae'n rhaid iddynt fod yn aelodau o staff sy'n cael tâl o'r categori perthnasol.
5. Ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni enwebu, os oes mwy nag un enwebai, bydd y Clerc yn ysgrifennu at bob unigolyn enwebedig i gadarnhau'r weithdrefn ethol. Bydd yr wybodaeth a roddir gan yr enwebai yn adran 3 ar y ffurflen enwebu'n cael ei defnyddio yn yr etholiad.
6. Bydd y Clerc yn hysbysu adran briodol yr aelod o staff (academaidd neu gymorth) y bydd etholiad yn cael ei gynnal a bydd yn esbonio'r broses ar gyfer pleidleisio. Pan fydd yn bosibl, bydd hyn yn electronig ond, o gydnabod nad oes gan rai aelodau o staff fynediad i ddulliau pleidleisio electronig, bydd papurau pleidlais yn cael eu hanfon i gyfeiriad cartref yr aelodau hynny o staff. Bydd rhaid i'r aelodau hynny o staff ddychwelyd y papurau i'r blychau pleidleisio a gedwir yn nerbynfa Gorseinon a Thycoch, neu drwy eu postio at Clerc y Gorfforaeth.

7. Bydd ffurflenni pleidleisio ar bapur yn cael eu rhifo i ddangos eu bod yn ddilys ac at ddibenion archwilio. Ni chedwir cofnod o rif y papur pleidleisio na'r aelod o staff sy'n ei dderbyn. Ni fydd ffurflenni pleidleisio a gollwyd yn cael eu disodli.
8. Bydd staff yn cael eu hysbysu am ddyddiad cau'r bleidlais.
9. Bydd cyfnod o 14 diwrnod o leiaf rhwng agor a chau'r bleidlais ac ni chaiff papurau na phleidleisiau electronig a dderbynnir ar ôl y dyddiad penodedig eu hystyried.
10. Ar ddiwedd y bleidlais bydd y blychau pleidleisio'n cael eu casglu a'u dosbarthu i Swyddfa'r Clerc ar gampws Tychoch a bydd canlyniadau'r pleidleisiau electronig yn cael eu dosbarthu i'r Clerc.
11. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cyfrif ym mhresenoldeb tyst a ddylai fod yn aelod o'r Uwch Grŵp Rheoli, ac unrhyw un o'r ymgeiswyr a hoffai fod yn bresennol.
12. Bydd y Clerc yn penderfynu a yw papur pleidleisio wedi'i ddifetha ac ni chaiff papurau a ddifethwyd eu cyfrif.
13. Yr ymgeisydd llwyddiannus, a'r enwebai ar gyfer aelodaeth o Fwrdd y Gorfforaeth fydd yr unigolyn â'r nifer fwyaf o bleidleisiau yn y categori perthnasol. Os bydd pleidlais gyfartal bydd y broses pleidleisio'n cael ei gwneud eto cyn gynted ag sy'n ymarferol.
14. Cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl gwybod canlyniadau'r etholiad bydd y Clerc yn hysbysu'r ymgeiswyr o'r canlyniad, hysbysu Cadeirydd y Bwrdd, postio'r canlyniad ar fewnwyd y staff, a phostio copïau papur o'r canlyniad ar hysbysfyrddau staff.
15. Cyfrifoldeb Bwrdd y Gorfforaeth yw penodi aelodau o Fwrdd y Gorfforaeth.
16. Bydd unrhyw apeliadau neu gwynion cysylltiedig â'r weithdrefn hon neu weithrediadau'r Clerc fel y swyddog canlyniadau yn dod i sylw'r Cadeirydd neu'r Pennaeth a fydd yn ystyried yr apêl ac yn penderfynu ar ei rhinweddau o fewn pum diwrnod gwaith. Mae barn y Cadeirydd a'r Pennaeth yn derfynol.

(Cymeradwywyd gan Fwrdd y Gorfforaeth 27 Mawrth 2014)